16. Coed Craig Cilhendre

Pontardawe, Castell-nedd Port Talbot

Cyfeiriadau Grid	Map Explorer 165 yr A.O. Abertawe. Prif fynedfa: SN720023, Canolfan y safle: SN719022
Statws	Dim
Daliadaeth	Prynodd yr Ymddiriedolaeth rydd-ddaliadaeth y warchodfa hon fis Mawrth 1987, gyda grantiau a chymorth ariannol gan Dr Martin Cahn, y Comisiwn Cefn Gwlad, WGCC a CFEN.
Maint	Arwynebedd o 0.81 he (2 erw).
Lleoliad a Nodiadau Mynediad	1.5 km i'r de o Bontardawe. Gellir cael mynediad i'r warchodfa drwy ddilyn trac i faes parcio bychan yng nghornel ogledd orllewinol y warchodfa, sydd wedi'i lleoli yn SN724024. Nid oes modd defnyddio cadeiriau olwyn ar y safle.
Cludiant cyhoeddus	Bysus rhifau 122, X20, X25 o Orsaf Bysus Quadrant yn Abertawe i Bontardawe.

Disgrifiad: Coetir o goed derw'r ucheldir yw Craig Cilhendre ac mae rhan ohoni'n hynafol ei tharddiad, gyda rhai darnau o goetir gwlyb, ar lethr serth yn wynebu'r gogledd. Mae sawl trac llydan, yn dyddio o gyfnod cynharach pan gloddiwyd am lo yma, i'w cael ar y safle, a cheir llwybr hen dramffordd yn rhedeg drwy'r warchodfa. Tywodfaen Pennant yw sylfaen y safle, ac mae nifer o wythiennau glo bychain yn dod i'r amlwg yn y warchodfa. Mae clogwyn tywodfaen, sy'n rhyw 8 metr o uchder a thros gilometr o hyd, yn rhedeg drwy'r warchodfa ar frig y llethr, yn cynnig golygfeydd hyfryd dros Alltwen.

Mae strwythur oedran y goedwig yn amrywio, yn arbennig yn y rhan orllewinol. Mae rhai mannau trwchus ger y fynedfa'n dangos ôl clirio'r safle, drwy dorri'r coed yn y gorffennol diweddar. Mae canopi'r coetir yn cynnwys mosaig o Dderw Digoes, Ffawydd, Bedw, Ynn, Sycamorwydd a Gwerni. Ar fap yn dyddio o 1831, gwelir rhan o'r warchodfa heb goed arni.

Ym mhen gorllewinol y goedwig, yr ardal fwy hynafol, ceir haen amlwg o brysgwydd, gyda llawer o Gyll a Chelyn yn arbennig. Mae nifer o nentydd bychain i'w gweld yn llifo i lawr y llethr a cheir ardaloedd heb eu draenio ar waelod y llethr hwn, ble mae Gwerni'n tyfu, ac ardaloedd eang o Fioled y Gors (4-7) a Gwlydd Melyn Mair (5-7).

Gan fod y warchodfa'n eithaf llaith, ceir yma amrywiaeth o blanhigion is, yn cynnwys mwsoglau a llysiau'r afu.

craig cilhendre 1 6/7/06, 10:33 am



Nodau Rheoli: Cynnal y warchodfa fel coetir o dderw'r ucheldir drwy alluogi i'r coed brodorol adfywio'n naturiol yma. Dal ati i docio ac osgoi pori drwy gynnal a chadw ffensys y terfynau. Mae maes parcio wedi cael ei ddarparu ac ailsefydlwyd y llwybrau troed, gan eu cysylltu â'r rhwydwaith presennol o lwybrau.

Amser da i ymweld	
Ebrill - Mehefin	Blodau'r coetir
Mai - Gorffennaf	Adar yn magu a phryfed
Medi - Tachwedd	Ffwng

craig cilhendre 2 6/7/06, 10:33 am